Prifysgol Bangor

## COFNODION Y CYNGOR

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 23 Gorffennaf 2021.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Mr Iwan Evans, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Llion Jones, Mr Kailesh Karavadra, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Dr Ian Rees, yr Athro Gareth Roberts, yr Athro Oliver Turnbull, Dr Lynne Williams, Mr Tudur Williams a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau**:
Dr Karen Jones, Mr Marc Jones, Ms Julie Perkins a'r Athro Andrew Edwards.

**Yn bresennol hefyd:**
Yr Athro Nicky Callow, Mr Rob Eastwood, Mrs Tracy Hibbert, Dr Kevin Mundy, yr Athro Paul Spencer, Mrs Lorraine Westwood a Mr Lars Wiegand.

Yn ogystal, roedd yr Athro Jean White yn bresennol fel arsylwr, ac roedd Ms Jeannette Strachan, SUMS Consulting yn bresennol ar gyfer eitem 20.95.

### 20.91 CROESO

Croesawyd Mr James Avison, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, a Mr Mabon Dafydd, Llywydd UMCB i'w cyfarfod cyntaf fel aelodau o'r Cyngor. Croesawyd yr Athro Jean White fel arsylwr, a nodwyd y byddai'r Athro White yn ymuno â'r Cyngor fel Aelod Annibynnol yn yr hydref.

### 20.92 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Bersonol:

**Dr Rebecca Crane**, Ysgol Seicoleg

B. Ar ran y Cyngor llongyfarchodd y Cadeirydd yr Athro Crane yn gynnes.

### 20.93 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Mrs Lorraine Day**
Cyn aelod staff yn Adnoddau Dynol

**Yr Athro Hinrich Siefken**

Cyn Athro Anrhydeddus Almaeneg

**Yr Athro Emeritws Clare Wenger**
Cyn aelod staff yn y Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol

**Dr Gareth Pierce**
Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn raddedig o Brifysgol Bangor mewn Mathemateg

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 20.94 DATGANIADAU BUDD

Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau budd mewn perthynas â'r materion ar yr agenda.

## 20.95 IECHYD A LLES

A. Derbyniodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Archwilio a Gweithredu Newid Sylweddol Iechyd Meddwl, a luniwyd ar ran y Brifysgol gan SUMS Consulting. Nodwyd bod HEFCW wedi darparu dyraniadau ychwanegol i Brifysgolion roi strategaethau iechyd a lles ar waith yn 2020/21, ac yn ogystal â gwahodd projectau lles ac iechyd wedi'u hariannu gofynnai'r cylchlythyr i brifysgolion ddatblygu strategaethau lles ac iechyd a mabwysiadu Fframwaith Newid Sylweddol a Phrifysgolion Mwy Diogel rhag Hunanladdiad *Universities UK* (UUK). Byddai'r adroddiad Newid Sylweddol yn cyflawni rhan allweddol o ofynion ariannu HEFCW ac yn darparu asesiad gwrthrychol o berfformiad y brifysgol yn y maes hwn. Byddai'r asesiad hefyd yn cyfrannu at ddatblygu strategaethau lles y brifysgol ar gyfer myfyrwyr a staff at y dyfodol.

Nodwyd bod pob adran o'r fframwaith Newid Sylweddol wedi cael ei hasesu ar raddfa 0-4 lle'r oedd 0 yn nodi 'heb ddechrau' a 4 yn nodi 'ymarfer rhagorol'. Roedd y Brifysgol wedi sgorio 2/3, a oedd yn dangos bod rhai elfennau yn ymarfer da gydag elfennau eraill ag ymarfer da yn gyffredinol. Adroddodd Ms Strachan fod y sgôr hon yn rhoi'r Brifysgol yn y canol uwch, o gymharu ag eraill yn y sector.

Nodwyd bod nifer o argymhellion yn yr adroddiad, a nifer o enillion cyflym. Tynnwyd sylw at ymdeimlad cymunedol gwirioneddol y Brifysgol a bod parch mawr at y Gwasanaethau Myfyrwyr ymysg y staff a'r myfyrwyr, a chanmolwyd y gwaith a wneir mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr ar draws nifer o brojectau.

Amlygwyd tri phrif argymhelliad yn yr adroddiad, sef gwneud hyfforddiant uwch diwtoriaid a thiwtoriaid personol yn orfodol a'i adnewyddu yn flynyddol, rhoi lle amlwg i iechyd a lles yn holl strategaethau eraill y Brifysgol a chryfhau gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Cadarnhawyd bod yr argymhellion hyn yn cael eu cyflwyno.

Yn dilyn cwestiynau, cadarnhawyd y byddai SUMS Consulting yn parhau i weithio gyda'r Brifysgol yn y maes hwn, a bod gwaith yn mynd rhagddo'n benodol i sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn gallu cael mynediad at yr adnoddau sydd ar gael i fyfyrwyr ym maes iechyd a lles.

B. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Ms Strachan, yr Athro Callow a Mrs Hibbert am eu cyflwyniad a'u hadroddiadau defnyddiol, a chroesawyd canlyniadau cadarnhaol yr adroddiad gan y Cyngor. Nodwyd y byddid yn diweddaru'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar y materion hyn ar ran y Cyngor.

## 20.96 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 30 Ebrill 2021.

B. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd holl gamau gweithredu'r Cyngor sydd heb eu cyflawni. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

C. Mewn perthynas â Chofnod 20.77 [USS] adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro fod UUK, yn dilyn cyflwyno'r ymateb i ymgynghoriad UUK, wedi cyhoeddi ymgynghoriad byr pellach. Dyma'r ddau faes ar gyfer ymgynghoriad:

- Byddai'r gofyniad am sicrwydd *pari passu* yn cael ei sbarduno pan fyddai benthyca sicredig newydd yn fwy na 10% o'r asedau net; a

- Byddai'r Moratoriwm ar ymadael yn cael ei weithredu ar unwaith gyda rhaglen dreigl moratoriwm 20 mlynedd.

Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Gweithredu a gwnaed penderfyniad, yn unol ag ymateb blaenorol y Brifysgol, y byddai'r brifysgol yn gwrthod y gwrthgynnig gan Ymddiriedolwr yr USS. Nodwyd, gan fod y Brifysgol wedi gwrthod sicrwydd *pari passu* yn flaenorol, ei bod yn dilyn y byddai'n gwrthod atgyfnerthu hynny ymhellach o dan y gwrthgynnig.

## 20.97 MATERION YR IS-GANGHELLOR

### Adroddiad y Pwyllgor Gweithredu

Cyflwynodd yr Is-ganghellor adroddiad y Pwyllgor Gweithredu a diweddaru'r aelodau ar faterion addysg uwch ar lefel Cymru a'r Deyrnas Unedig. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol:

A. Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

Tynnwyd sylw aelodau'r Cyngor at gynnwys yr ymrwymiad i sefydlu Ysgol Feddygol yng Ngogledd Cymru fel rhan o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Nodwyd y disgwylid diweddariad pellach mewn perthynas

â'r mater hwn yn gynnar yn yr hydref. Croesawyd yr ymrwymiad gan aelodau'r Cyngor fel un arwyddocaol nid yn unig i'r Brifysgol ond i ranbarth Gogledd Cymru.

B. Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW)

Nododd y Cyngor fod y Pwyllgor Gweithredu wedi ystyried dadansoddiad yn ddiweddar o ganlyniad y tendr Gwasanaethau Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, ynghyd â chyfleoedd ar gyfer twf. Adroddodd yr Is-ganghellor i'r Brifysgol fod yn llwyddiannus yn 9 allan o'r 18 cais, gan gynnwys ennill meysydd o ddarpariaeth newydd sy'n cyd-fynd â'r weledigaeth ar gyfer dyfodol y Brifysgol, ac yn datblygu ei chwmpas y tu hwnt i ogledd Cymru gan gynnwys dyfarnu Rhaglen Dysgu o Bell Cymru Gyfan ar gyfer Nyrsio a rhaglen Dysgu Gwasgaredig ar gyfer Nyrsio a leolir ym Mhowys. Nodwyd bod y canlyniad yn adlewyrchu'r sylw cynyddol i ddulliau dysgu hyblyg ac o bell ar draws y parthau iechyd a gofal (ac yn cydnabod manteision hynny) ac yn cyd-fynd â chynnig estynedig i'r myfyrwyr sy'n astudio o gampws Wrecsam ac i'r Ysgol Feddygol. Yn ogystal nodwyd bod nifer o gyfleoedd ar gyfer twf i'r Brifysgol yn ymestyn i ehangu darpariaeth nas comisiynwyd (e.e. yn ymwneud â'r agenda atal). Roedd gwaith hefyd yn parhau ar baratoi at rownd gomisiynu Cam 2, a mapio cryfderau ymchwil y Brifysgol â meysydd addysgu, wrth i'r Brifysgol gyflwyno ei hun fel y Brifysgol o ddewis yng ngogledd Cymru i astudio iechyd, deintyddiaeth a meddygaeth.

C. Cyllid Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru (RWIF)

Hysbyswyd y Cyngor bod HEFCW wedi cyhoeddi ym mis Ebrill 2020 yr ailgyflwynir cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau arloesi ac ymgysylltu ym mhrifysgolion Cymru. Yn dilyn hynny roedd y Pwyllgor Gweithredu wedi cymeradwyo strategaeth Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru'r Brifysgol yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2020 a oedd yn cynnwys cynlluniau i benodi i swyddi newydd allweddol a fyddai'n cefnogi gweithgarwch ymchwil a llywodraethiant ymchwil.

D. Materion Rhyngwladol

Nododd yr Is-ganghellor yr amgylchedd ansicr sy'n parhau mewn perthynas â myfyrwyr rhyngwladol yn teithio i'r Deyrnas Unedig, a'r gofynion o ran cwarantîn ar gyfer mis Medi.

Nodwyd yn ogystal bod y Brifysgol wedi bod yn llwyddiannus yn ddiweddar yn ei chais i'r Cynllun Turing, sef cynllun llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu cyllid ar gyfer cyfleoedd rhyngwladol mewn addysg a hyfforddiant o amgylch y byd, ac y dyfarnwyd £250k i gynorthwyo myfyrwyr gyda phrofiad rhyngwladol.

E. Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS)

Diweddarodd yr Athro Turnbull y Cyngor ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021 a ryddhawyd yn ddiweddar. Nodwyd y bu gostyngiad yn y gyfradd foddhad ar gyfer y Brifysgol yn gyffredinol, ac o ganlyniad i'r gostyngiad hwnnw roedd

safle'r Brifysgol hefyd wedi gostwng. Adroddwyd bod hyn yn thema gyffredin yn sectorau Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a'r Deyrnas Unedig a awgrymai fod effaith sylweddol yn gyffredinol ar ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2021 yn sgil pandemig Covid-19. Amlygodd yr Athro Turnbull nifer o benawdau cadarnhaol ymysg y canlyniadau, ond roedd nifer fechan o ysgolion wedi gweld eu canlyniadau'n gostwng, a chadarnhawyd bod trafodaethau eisoes yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r Ysgolion hynny gyda'r Penaethiaid perthnasol, a oedd yn llunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r themâu oedd yn codi o'r data.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn derbyn dadansoddiad manylach yn yr hydref ar ôl i waith pellach gael ei gwblhau ar y manylion.

**20.98 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR**

A. Nododd y Cyngor yr adroddiadau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr a chan UMCB o dan eitem 5 yr agenda.

B. Yn benodol, amlygodd Mr Avison a Mr Dafydd y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd y Tîm Sabothol newydd ar gyfer 2021/22 bellach yn eu swyddi a chwblhawyd cyfnod trosglwyddo a rhaglen gynefino;
- Roedd myfyrwyr wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar gyfer Strategaeth 2030, a'r is-strategaethau'n ogystal, a fu'n ddefnyddiol. Nodwyd bod Undeb y Myfyrwyr yn datblygu ei strategaeth ei hun ar hyn o bryd, a'i fod mewn ymgynghoriad â staff mewn perthynas â'i adnoddau staffio yn dilyn y Polisi Rheoli Newid;
- Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar Ganolfan Weithgareddau Undeb Bangor yn adeilad Ffriddoedd a fyddai'n caniatáu i Undeb y Myfyrwyr gynnal mwy o weithgareddau myfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf;
- Roedd cyfanswm o 850 o sesiynau, gan gynnwys digwyddiadau chwaraeon, wedi cael eu cynnal yn y cnawd ers diwedd mis Ebrill, ac roedd adborth rhagorol gan fyfyrwyr yn deillio o hynny;
- Amlygodd adroddiad blynyddol UMCB nifer o weithgareddau codi arian, a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth llwyddiannus gan gynnwys Shwmae Sumae, Caru Amaeth a Thaclo'r Tabŵ; ac
- Roedd y Brifysgol wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto'n ennill yr Eisteddfod Ryng-golegol.

C. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Avison a Mr Dafydd am eu hadroddiadau.

**20.99 SICRHAU CYNALIADWYEDD ARIANNOL**

A. Cyflwynodd y Prif Swyddog Gweithredu adroddiad diweddaru terfynol i'r Cyngor ar yr ymarfer ailstrwythuro. Nodwyd, ers yr adroddiad diwethaf i'r Cyngor ym mis Chwefror, bod staff y Brifysgol wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd â'r undebau llafur o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i weithio tuag at gael gwared ar y bygythiad o ddiswyddiadau gorfodol. Roedd yn eglur bellach bod y rhagolygon ariannol ar gyfer

y blynyddoedd nesaf yn rhagfynegi sefyllfa lawer gwell o ran cynaliadwyedd ariannol heb yr angen i weithredu'r diswyddiadau terfynol, ac y cymerwyd pob cyfle arall i'w datrys trwy ddulliau gwirfoddol. Yng ngoleuni hynny, a'r gwelliant yn y sefyllfa recriwtio ar gyfer Medi 2021, roedd y Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno cael gwared ar y bygythiad o ddiswyddiadau gorfodol yn achos y nifer fechan o staff a oedd yn parhau i'w wynebu. Mewn cytundeb â'r undebau llafur, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori pellach â staff a oedd yn parhau i fod heb eu hadleoli i'w hysbysu y byddent naill ai'n aros yn eu swyddi presennol neu i dynnu sylw at swyddi amgen neu newidiadau i ddisgrifiadau swydd. Yn achos y rhan helaethaf o staff yr effeithiwyd arnynt, byddai eu swydd-ddisgrifiad presennol a'u sefyllfa gontractiol yn aros yr un fath. Cafodd datganiad ar y cyd gan y brifysgol a'r undebau llafur yn mynegi hynny ei ryddhau i'r staff ar 24 Mehefin.

B. Croesawodd y Cadeirydd yr adroddiad diweddaru terfynol ar y mater hwn a diolchodd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur am eu gwaith dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ddod â'r Brifysgol i sefyllfa o ddim diswyddiadau gorfodol.

## 20.100 RHAGAMCANION CYLLIDOL

A. Cynghorodd Mr Eastwood y Cyngor ei bod yn ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno rhagamcan ariannol hyd at Orffennaf 2025 i HEFCW erbyn diwedd Gorffennaf 2021. Roedd y dull a fabwysiadwyd gan y brifysgol wrth lunio'r rhagamcan yn cydnabod y byddai gwaith manwl yn cael ei wneud yn ystod y cylch cynllunio, a fyddai'n cael ei gwblhau yn ddiweddarach eleni. Nodwyd bod y Rhagamcan yn hwyluso dealltwriaeth y Brifysgol o'r cyllid tebygol a fyddai ar gael i'w fuddsoddi dros y blynyddoedd i ddod, ac y byddai'r sefyllfa hon yn gefn i ddadansoddi a blaenoriaethu cyfleoedd buddsoddi. Er bod y Rhagamcan yn cydnabod y risgiau sy'n weddill, roedd yn dangos newid yn null gweithredu'r brifysgol i'r graddau y byddai mewn sefyllfa i ystyried y lefel uwch o fuddsoddiad a fyddai'n ofynnol i gefnogi ei hamcanion strategol. Roedd y rhagamcan yn cynnwys buddsoddiad yn yr ystâd, TG a chostau staff ac yn cynnal balansau arian parod o fwy nag £20 miliwn ar ddiwedd pob blwyddyn. Nodwyd bod y sefyllfa hon wedi elwa o'r camau a gymerwyd yn yr ymarfer ailstrwythuro a dulliau gwell o gynhyrchu incwm. Adroddodd Mr Eastwood fod gwelliant pellach o ran cynhyrchu arian yn parhau i fod yn amcan a fyddai'n cael ei ystyried yn ystod y rownd gynllunio. Hysbysodd Mr Eastwood y Cyngor i'r rhagolwg gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 9 Gorffennaf 2021, a bod y Pwyllgor yn cefnogi cyflwyno'r Rhagamcan i HEFCW.

B. Yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth bellach, **cymeradwyodd** y Cyngor y rhagamcan i'w gyflwyno i HEFCW erbyn y dyddiad cau, 21 Gorffennaf 2021.

## 20.101 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

A. Nododd y Cyngor y papur a oedd yn amlinellu'r tueddiadau presennol mewn perthynas â chyllid ymchwil. Yn ogystal, tynnodd yr Athro Spencer sylw'r aelodau at y cynnydd yng nghyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a ysgogwyd gan waith yr Athro Davey Jones a'i dîm yn monitro iechyd cyhoeddus drwy archwilio dŵr gwastraff yn ystod pandemig Covid-19. Nodwyd bod gan y Brifysgol c£41m o geisiadau grant yn yr arfaeth yn disgwyl

am benderfyniad a oedd yn fwy na dwbl yr hyn a ddisgwylid fel rheol, ac roedd yn bosibl bod parhad pandemig Covid-19 a'r galwadau ychwanegol ar amser staff, gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil yn peri oedi wrth adolygu grantiau, a hefyd gallu cyllidwyr i gwblhau galwadau a dyfarniadau i gyd wedi cyfrannu at y sefyllfa hon. Nododd yr Athro Spencer fod y Brifysgol yn hyderus y byddai'n adennill ei llwyddiant yn denu grantiau. Yn dilyn cwestiynau, cadarnhawyd bod ymroi i amrywiaeth o ffrydiau ariannu, o du'r llywodraeth ac o du busnes, yn bwysig yn hyn o beth wrth symud ymlaen.

B. Cyflwynodd y Prif Swyddog Marchnata adroddiad diweddaru i'r Cyngor ar gynnydd marchnata a recriwtio myfyrwyr. Nodwyd bod niferoedd Israddedigion Cartref yn edrych yn fwy calonogol nag y buont ers cryn amser, ac roedd yn ymddangos y byddai'r Brifysgol yn mynd i'r cyfnod Clirio mewn sefyllfa gryfach. Serch hynny, roedd rhywfaint o ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r sefyllfa, gyda'r twf yn y niferoedd wedi'i yrru'n sylweddol gan ymgeiswyr sy'n hanu o Loegr lle'r oedd y Brifysgol wedi cynnal ymgyrch farchnata. Nodwyd fodd bynnag mai ychydig iawn o ymgeiswyr eleni oedd wedi cael cyfle i ymweld yn y cnawd â'r sefydliadau y gwnaethant ymgeisio iddynt, a allai arwain at ymgeiswyr yn newid eu meddwl yn ystod y broses Glirio. Yn ogystal, nodwyd bod y farchnad Ôl-radd Cartref, a'r marchnadoedd rhyngwladol yn parhau i fod yn ansicr, er y nodwyd bod y marchnadoedd hyn yn draddodiadol yn brigo'n hwyrach na'r farchnad Israddedigion Cartref.

Croesawodd y Cyngor y newyddion cadarnhaol am recriwtio myfyrwyr gan nodi'r gwaith sydd angen ei wneud yn awr i drosi'r niferoedd yn fyfyrwyr cofrestredig ym mis Medi 2021.

**20.102 MATERION YSTADAU**

A. Ystyriodd y Cyngor y diweddariadau a roddwyd yn y log gweithredu mewn perthynas â gwerthu eiddo. Yn benodol tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws sylw'r Cyngor at y mater a ganlyn:

[1] Pen y Ffridd: cynghorwyd y Cyngor y bu oedi yn sgil cais i'r Gofrestrfa Tir i adolygu'r ffiniau ar y cynllun teitl. Mae hyn bellach wedi'i ddatrys a darparwyd copi o'r gofrestr a'r cynllun teitl wedi'u diweddaru i Gyfreithwyr y prynwr.

B. Nodwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Strategaeth Ystadau a'r broses ymgynghori â rhanddeiliaid. Ymhellach darparwyd trosolwg o'r rhaglen gyfalaf a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â llywodraethu a rheoli risg. Darparwyd diweddariad hefyd ar faterion ystadau mwy cyffredinol megis y strategaeth rheoli carbon a phenodi'r contractwyr cyfnod penodol ar gyfer contractau Cynnal a Chadw Adeiladau a gwaith Mecanyddol a Thrydanol, a aeth i'r afael â nifer o faterion a nodwyd mewn archwiliadau diweddar.

C. Ystyriwyd cais gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws yn ceisio cymeradwyaeth gan y Cyngor i waredu asedau ac i roi ased pellach ar y farchnad yn unol

â'r pris a'r cyngor a roddwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Nododd y Cyngor fel a ganlyn:

[1] bod gofyn i'r Brifysgol gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011 mewn perthynas â gwaredu tir;

[2] y cafwyd adroddiad syrfëwr, yn unol ag Adran 119(1)(a) Deddf Elusennau 2011 a'r Rheoliadau Elusennau (Adroddiad Syrfëwr Cymwysedig) 1992;

D. **Cadarnhaodd** aelodau'r Cyngor y canlynol yn achos Ynys Faelog:

[1] eu bod yn rhesymol fodlon bod y prisiwr a baratôdd yr adroddiad yn aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, yn meddu ar y gallu a'r profiad perthnasol i wneud prisiad o'r eiddo a'r ardal dan sylw; ac

[2] yn unol ag Adran 118 o Ddeddf Elusennau 2011, nad oes unrhyw bersonau cysylltiedig yn ymwneud â'r gwerthiant; a

[3] bod yr aelodau, yn unol ag Adran 119(1)(c) Deddf Elusennau 2011, yn fodlon mai telerau'r cynnig ar gyfer gwaredu yw'r gorau y gellir yn rhesymol eu cael i'r Brifysgol a'u bod yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ac y gall y gwerthiannau fynd rhagddynt.

E. **Cytunodd** y Cyngor fel a ganlyn:

[1] y dylid gwerthu Ynys Faelog yn amodol ar gwblhau'r contract; ac

[3] y dylid gwaredu Trewylan, Porthaethwy ac y dylai'r Brifysgol gysylltu ag asiantau gwerthu a chyfreithwyr;

[3] y dylid gwaredu Glyndŵr, Porthaethwy ac y dylai'r Brifysgol gysylltu ag asiantau gwerthu a chyfreithwyr; ac

[4] y dylid gwaredu cwt cychod Nantporth ac y dylai'r Brifysgol gysylltu ag asiantau gwerthu a chyfreithwyr.

**20.103 ENWAU YSGOLION 2021/22**

A. Nododd yr Athro Turnbull, yn dilyn yr ailstrwythuro diweddar, ei bod yn ofynnol cyflwyno'r enwau terfynol ar gyfer Colegau ac Ysgolion i'r Cyngor i'w cymeradwyo, yn unol â Statudau XIV a XVI y Brifysgol. Nododd y Cyngor y bu ymgynghori yn yr Ysgolion Academaidd a bod yr enwau arfaethedig wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredu gan Ddeoniaid y Colegau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Cytunodd y Pwyllgor Gweithredu yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo enwau'r Ysgolion.

B. Yn dilyn trafodaeth, **cymeradwyodd** y Cyngor yr enwau terfynol ar Golegau ac Ysgolion.

**20.104 CONCORDAT YMCHWIL: ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL**

A. Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Concordat Ymchwil, a nododd yr Athro Spencer fod y Brifysgol, ym mis Ionawr 2020, yn un o'r prifysgolion cyntaf yn y Deyrnas Unedig i lofnodi'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr newydd. Nodwyd bod y Concordat yn gytundeb rhwng rhanddeiliaid i wella cyflogaeth a chefnogaeth i ymchwilwyr a gyrfaoedd ymchwilwyr mewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig ac yn cyflwyno tair egwyddor, sef yr amgylchedd a diwylliant, cyflogaeth, a datblygiad proffesiynol a gyrfaol. Yn sylfaen i'r egwyddorion roedd ymrwymiadau ar y pedwar grŵp o randdeiliaid allweddol (sefydliadau, cyllidwyr, ymchwilwyr a rheolwyr ymchwilwyr) i wireddu nodau'r Concordat.

Hysbyswyd y Cyngor ei bod yn gyfrifoldeb ar lofnodwyr y Concordat newydd gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i gorff llywodraethu’r Brifysgol.

B. **Nododd** y Cyngor Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Concordat Ymchwil.

**20.105 ADRODDIAD O’R SENEDD**

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

**20.106 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH**

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd ar 28 Mai a 9 Gorffennaf (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Tynnwyd sylw'r Cyngor yn benodol at y pwyntiau canlynol:

[1] Cofnod 2021-66[b] (MSParc) Adroddodd Mr Eastwood y cafwyd llythyr oddi wrth Lys Archwilwyr Ewrop (ECA) ynghylch cyllid cymorth gwladol a dderbyniwyd ar gyfer MSParc. Roedd y Brifysgol yn ystyried cynnwys y llythyr ar hyn o bryd ac yn trafod â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Cadarnhaodd Mr Eastwood y byddid yn rhoi gwybod i’r Cyngor, trwy'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, am unrhyw oblygiadau a fyddai’n deillio o lythyr Llys Archwilwyr Ewrop.

[2] Cofnod 2021-67[c] Projectau Cyfalaf: Fframwaith Rheoli Projectau: Roedd y Pwyllgor wedi cytuno y byddai aelodau'r Cyngor yn trafod fframwaith rheoli projectau cyfalaf y Brifysgol gyda Phwyllgor Gweithredu’r Brifysgol a swyddogion perthnasol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyfarfod yn gynharach y bore hwnnw i drafod y mater a **chytunwyd** ar y cynnig gan y Pwyllgor Gweithredu i sefydlu Grŵp Craffu ar Raglenni Cyfalaf a fyddai'n eistedd uwchben y Grŵp Strategaeth Ystadau ac a fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cyngor oedd â’r profiad priodol.

Gofynnodd Dr Griff Jones am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r project Pontio a drafodwyd yn Niwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Cyngor ym mis Hydref 2020 ac y cyfeiriwyd ato yng nghofnodion y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Yn benodol, gofynnwyd am wybodaeth bellach am unrhyw adroddiad cau, a maint y gwaith oedd eto i'w wneud ar yr adeilad. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn ystyried mater llawer ehangach llywodraethu rhaglenni cyfalaf yn hytrach na Pontio yn benodol.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog Gweithredu ystyried y ffordd fwyaf priodol o fynd i'r afael â chwestiynau Dr Jones, a chadarnhawyd y byddai'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn cael ei ddiweddaru ynghylch y canlyniad terfynol yn y dyfodol.

## 20.107 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd 2 Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion). Nodwyd yr Adroddiad yn Ystod y Flwyddyn, Awst 2020 - Ebrill 2021. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor, yr Athro Gareth Roberts, i bob aelod o staff a oedd wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn ar drefniadau'n ymwneud â phandemig Covid-19.

## 20.108 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

A. Cymeradwywyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y cofnodion). Tynnwyd sylw'r aelodau yn benodol at y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

B. Tynnwyd sylw'r Cyngor yn benodol at y materion canlynol:

[1] Cofnod 617B Cynllun Archwilio Mewnol 2021/22: Tynnwyd sylw'r Cyngor at y rhaglen archwilio a gytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

[2] Cofnod 621 Rheoli Risg a Pharodrwydd i Gymryd Risg: **Cymeradwyodd** y Cyngor y datganiad parodrwydd i gymryd risg diwygiedig, a gyflwynir fel atodiad i'r cofnodion.

C. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar y Risgiau Corfforaethol a Ddosbarthwyd yn Weddilliol yn Eithafol ac Uchel a nododd bod 12 o'r 23 risg sydd ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Brifysgol yn cael eu dosbarthu'n weddilliol yn eithafol neu'n uchel, h.y., o gymhwyso dulliau rheoli'r brifysgol, y rhai a fyddai'n cael effaith fawr neu gritigol, ac sy'n debygol neu bron yn sicr o ddwyn ffrwyth yn y 1-3 blynedd nesaf. Croesawyd derbyn yr adroddiad, a **chadarnhawyd** y byddid yn trefnu cyfres o weithdai ar gyfer aelodau'r Cyngor yn ystod 2021/22, gydag un o'r gweithdai hynny ar risg.

## 20.109 PWYLLGOR MATERION Y GYMRAEG

**Cymeradwywyd** yr adroddiad ar gyfarfod Pwyllgor Materion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.110 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 14 Mehefin 2021 (ynghlwm fel Atodiad VII i gopi swyddogol y cofnodion) a **nodwyd** y penodiadau i'r Pwyllgorau a'r Cyrff Allanol.

B. Ystyriodd y Cyngor yr Ordinhadau newydd a diwygiedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'u **cadarnhau**.

## 20.111 FFORWM YMGYSYLLTU AR Y CYD

**Cymeradwywyd** yr Adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Fforwm Ymgysylltu ar y Cyd a gynhaliwyd 5 Gorffennaf 2021 (ynghlwm fel Atodiad VIII i gopi swyddogol y cofnodion). Croesawodd y Cadeirydd sefydlu'r Fforwm a nododd y byddai'r Fforwm yn datblygu ac yn aeddfedu dros y flwyddyn academaidd newydd.

## 20.112 ADRODDIAD ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a ***nododd*** y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol 2021/22, dyfodol Cydfargeinio Cyflogau ac adroddiad diweddaru Athena Swan.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. ***Cymeradwyodd*** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws Emeritws i'r canlynol:

- Yr Athro Chris Freeman

## 20.113 CYFLWYNIAD I'R COMISIWN ELUSENNAU

***Nododd*** y Cyngor bod yr adroddiad blynyddol i'r Comisiwn Elusennau am 2019/20 wedi cael ei gyflwyno ym mis Mai 2021, cyn y dyddiad cau a bennwyd.

## 20.114 SELIO

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio'r dogfennau a restrwyd yn Agendum 15.

## 20.115 STRATEGAETH 2030

A. Cyflwynodd yr Is-ganghellor fersiwn derfynol dogfen Strategaeth 2030. Pwysleisiwyd yn arbennig bwysigrwydd y ddogfen yng nghyd-destun presennol addysg uwch wrth i brifysgolion symud ymlaen o effeithiau pandemig Covid-19. Nododd yr Is-ganghellor ei

bod yn strategaeth uchelgeisiol ond cyraeddadwy wedi’i thywys gan werthoedd a oedd yn amlinellu trywydd cyffredinol y Brifysgol ar gyfer y degawd nesaf, yn cynnwys twf mewn gweithgarwch ymchwil rhyngddisgyblaethol, cynyddu niferoedd myfyrwyr a thrawsnewid y ffordd y mae myfyrwyr yn dysgu, wedi’i seilio ar gynaliadwyedd ariannol.

B. Estynnodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, ei diolch i'r Is-ganghellor a'r tîm Gweithredu am eu harweinyddiaeth a'u hegni dros y flwyddyn ddiwethaf, ac i'r holl staff a’r gymuned myfyrwyr am eu hymroddiad yn ystod blwyddyn o heriau na ellid bod wedi'u rhagweld.